



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarfod Cyhoeddus 10 Mawrth 2022, 09:30
a Gynhaliwyd dros Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Hefyd yn Bresennol:		
Rob Bailey	(RB)	Cynrychiolydd y Staff
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Data, Gwybodaeth ac Ymchwil
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi Ymchwil a Datblygu, Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Bolton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Rebecca Clements	(RC)	Hyfforddai Graddedig
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr (ymunodd am 11:05)
Hugo Cosh	HC	Prif Ddadansoddwr Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, Tîm Dadansoddol yr Arsyllfa
Alisha Davies	(AD)	Pennaeth Ymchwil a Datblygu
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (Cyhoeddus) wedi'i gadarnhau 10 Mawrth 2022
------------------------	--

		Iechyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Gadawodd am 10:50)
Nathan Lester	(NL)	Pennaeth Tîm Dadansoddol yr Arsyllfa, Rheoli Gwybodaeth Iechyd
Ymddiheuriadau		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	AM	Swyddog Cefnogi'r Bwrdd
Dechreuodd y cyfarfod am 09:30		
KRIC 1/2022 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau		
Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan groesawu pawb i'r cyfarfod a nodi, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig Covid-19 ac oherwydd y canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.		
Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriad uchod.		
Nododd y Pwyllgor bod y cyfarfod yn cael ei recordio, er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod dilynol ym mis Mehefin 2022.		
KRIC 2/2022	Datgan Buddiannau	
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb.		
KRIC 3/2022	Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso	
KRIC 3.1/2022	Diweddariad ar y Cynnydd gyda'r Strategaeth	
Derbyniodd y Pwyllgor y Papur Diweddariad ar y Cynnydd gyda'r Strategaeth (Cyf: 3.1 KRIC.2022_03_10).		
Darparodd IB ddiweddariad yn manylu'r gwaith a wnaed yn ei Gyfarwyddiaeth yn dilyn y trafodaethau yng Ngweithdy'r Pwyllgor blaenorol:		
- Roedd y gwaith ar adnabod manylion llawn yr holl weithgarwch ymchwil a oedd yn mynd rhagddo yn y Sefydliad yn parhau, gan gwmpasu ymchwil gofal iechyd, economaidd, cymdeithasol, meddygol a gwerthuso. - Byddai'r dystiolaeth a nodwyd yn cael ei ddefnyddio mewn proses asesu, pan fyddai adborth gan randdeiliaid wedi'i ganfod. - Byddai map yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cymharu'r canlyniadau a'r safbwyntiau o fewn y Sefydliad.		
Trafododd y Pwyllgor y canlynol:		
- Eglurhad bod adborth rhanddeiliaid yn cynnwys tystiolaeth gan GIG a'r awdurdodau lleol. - Pwysigrwydd rhoi ystyriaeth i gynulleidfaoedd targed wrth ddatblygu adnoddau er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflwyno'n briodol. - Cyflwyno datblygiad adnoddau at ddefnydd o fewn gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r angen i sicrhau ystyriaeth briodol i'r gynulleidfa darged.		

Dyddiad: 10 Mawrth 2022	Fersiwn: Terfynol	Tudalen: 2
--------------------------------	--------------------------	-------------------

- Yr angen i'r gwaith hwn alinio â strategaeth hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Defnydd o'r term 'effaith' a chytuno bod angen eglurhad a diffiniad o hyn er mwyn sicrhau ar y cyd, yr un ystyr.
- Yr angen i sicrhau ein bod yn annog, a'n bod yn glir am bartneriaethau gydag ymchwil a wneir o fewn ICC, ynghyd â rôl gweithwyr proffesiynol meddygol a pherthynol i iechyd. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn fater pwysig a fyddai'n cael ei drafod mewn Pwyllgor yn y dyfodol.

Camau gweithredu: IB/LB

- Mae angen ymchwil pellach i'r asesiad o ba fetrigau a ddefnyddiwyd ar gyfer effaith fel rhan o ddatblygiad y strategaeth.
- Bydd coladu gweithgareddau ymchwil mewn un gadwrfa yn caniatáu hyrwyddo'n llwyddiannus yr holl feysydd rhagoriaeth ymchwil.

Diolchodd y Pwyllgor i IB am y diweddariad am y gwaith hyd yma ar ddatblygu strategaeth ddiwygiedig ymchwil i Iechyd Cyhoeddus Cymru. **Nodwyd** y byddai diweddariad pellach yn cael ei ystyried maes o law a **nodwyd** ymhellach y gobaith y byddai aelodau'r Pwyllgor yn gallu ymwneud â'r ymarfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid.

KRIC 3.2/2022**Treialon Brechlyn Covid**

Derbyniodd y Pwyllgor y papur diweddarau am Dreialon Brechlyn Covid (Cyf: 3.2 KRIC.2022_03_10). Rhoddodd AD gyflwyniad i'r Pwyllgor, yn gosod rôl ICC wrth ddarparu trosolwg strategol am dreialon brechlyn Covid yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r effaith gadarnhaol yr oedd y gwaith hwn wedi'i gyflawni i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nodwyd bod angen sicrhau trefniadau llywodraethu clinigol priodol ac ystyried Contractau Anrhydeddus ar gyfer Gweithwyr Prifysgol sy'n gweithio o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio'r cyfleoedd a gyflwynwyd, fel rhan o'r gwersi a ddysgwyd o'r math hyn o weithio mewn partneriaeth.

Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor ei bod hi a Quentin Sandifer wedi cynnal asesiadau strategol ar yr adeg y datblygwyd y treialon a chytunwyd, oherwydd y pandemig, y dylid adolygu'r rhain yn awr.

Nododd y Pwyllgor bod ymchwil Sefydliad Iechyd y Byd wedi amlygu nad oedd treialon brechlyn Covid bob tro wedi gwahaniaethu canlyniadau ar sail rhyw nac oedran. Trafododd y Pwyllgor ddiffyg y data wedi'i ddatgyfuno a oedd ar gael, a bod gan lawer o'r astudiaethau ymchwil duedd yn erbyn merched. Wrth ystyried y treialon a chydweithrediad at y dyfodol, awgrymwyd y dylai ICC sicrhau bod treialon yn gofyn am fanylder pellach am ryw, oed ac ethnigrwydd.

Gorffennodd SG yr adran hon gan ddiolch i'r tîm am eu gwaith ar y treialon brechlyn. **Nododd** y Pwyllgor y diweddariad a chydabod y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn.

KRIC 4/2022**Strategaeth Ddigidol a Data****KRIC 4.1/2022****Diweddariad ar Broses y Strategaeth**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad am ddatblygiad Strategaeth Ddigidol a Data Llywodraeth Cymru ar gyfer y system Iechyd a Gofal yng Nghymru: roedd y system ar gam cynnar iawn yn y datblygiad ac roedd IB yn gweithio'n agos iawn gyda'r grŵp er mwyn sicrhau y byddai'n darparu'r strwythurau angenrheidiol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dywedodd IB wrth y Pwyllgor y byddai'n darparu diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Camau gweithredu: IB/LB

Nododd y Pwyllgor y camau nesaf gyda datblygu'r strategaeth, gan edrych ymlaen at ddiweddariadau pellach yn y dyfodol.

KRIC 5/2022**Rheoli Risgiau**

Derbyniodd y Pwyllgor y papurau Rheoli Risgiau (Cyf: 5 KRIC_2022_03_10)

Dywedodd RBW wrth y Pwyllgor bod adolygiad o'r holl risgiau corfforaethol a strategol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac y byddai adroddiad i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

Ystyriodd y Pwyllgor y Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, gan nodi nad oedd yno risgiau strategol cyfredol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Sicrhawyd y Pwyllgor bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

KRIC 6/2022**Arddangosiad o'r 'Dangosfwrdd Byw gyda Covid'**

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ac arddangosiad o'r Dangosfwrdd 'Byw gyda Covid' gan NL a HC.

Atgoffodd IB y Pwyllgor mai dull *agile* oedd y datblygiad a'i fod felly'n waith ar gynnydd. Gofynnwyd am adborth ar y dangosfwrdd presennol a'r potensial i gynnwys meysydd newydd ynddo. Diolchodd y Pwyllgor i NL a HC am y cyflwyniad, gan ddatgan eu cefnogaeth i ddatblygiad y dangosfwrdd a nodi bod yr elfen wedi'i awtomeiddio ohono yn arbennig o bwysig, a hefyd sut y byddai'r data'n cael ei ddefnyddio. Cytunodd IB y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth i'r dangosfwrdd ddatblygu.

Gofynnodd SG i IB a'i dîm i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd ac i ddychwelyd i'r Pwyllgor gydag arddangosiad pellach o'r dangosfwrdd ar adeg briodol.

KRIC 7/2022	Eitemau i'w Cymeradwyo
--------------------	-------------------------------

KRIC 7.1/2022	Cofnodion a Materion yn Codi – Rhagfyr 8 2021
----------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor a **chymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 8 (Cyf: 7.1a KRIC.2022_03_10) fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Nid oedd yno unrhyw gamau gweithredu i'w nodi.

KRIC 8/2022	Rhagolwg
--------------------	-----------------

Nodwyd Rhagolwg y Pwyllgor gan y Pwyllgor (Cyf: 8.KRIC.2022_03_10).

KRIC 9/2022	Materion Gweinyddol i Gloi
--------------------	-----------------------------------

Unrhyw fater arall: Dim

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig adborth am y cyfarfod trwy e-bost gan gynnwys materion a weithiodd yn dda ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Mehefin 16 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40